



CYMDEITHAS
DEFAID MYNYDD
CYMREIG



welshmountainsheep.cymru



Defaid Mynydd Cymreig / Welsh Mountain Sheep

Mr. Giles Hunt

Land and Estates Director

Mr. Trystan Edwards

Eryri General Manager

National Trust

12/6/2025

Dear Mr. Hunt and Mr. Edwards,

Concerns Regarding Livestock Reductions

We write to you on behalf of the **Welsh Mountain Sheep Society** to express our deep concern about the current and proposed reductions in livestock numbers across upland farms. These changes, while no doubt driven by long-term environmental intentions, risk causing significant and irreversible harm not only to the future of the Welsh Mountain Sheep breed, but also to the broader ecology, culture, and economy of the area.

The Welsh Mountain Sheep, particularly the **hefted flocks**, have been bred for generations to thrive in some of the most challenging upland environments in Wales. Their presence is not only symbolic of our agricultural heritage, but essential for the ecological management of upland habitats. Hefted flocks represent a deep-rooted relationship between sheep and landscape – one that cannot be recreated once broken. They are the foundation of the sheep industry in Wales.

Reducing flock numbers to the extent currently being implemented threatens the breed and the very existence of *defaid cynefin*—sheep that instinctively understand and maintain their "home" on the mountain. This unique relationship between sheep and landscape cannot simply be reestablished by reintroducing animals later. As highlighted by the RSPB, appropriate grazing by native sheep breeds is essential for sustaining open upland habitats, which are crucial for declining bird species such as the golden plover, curlew, chough, twite and skylark. Well-managed, traditional hill grazing plays a key role in preventing the spread of scrub and bracken, thereby supporting the biodiversity and ecological integrity of these fragile environments.

However, the consequences of reducing traditional grazing extend beyond ecological concerns. The UK's upland bird populations have seen significant declines; for instance, the golden plover has decreased by 15% since the mid-1990s, and the curlew has declined by 11% between 1994 and 2020. Lapwing has declined by 55% since 1967. These declines are linked to changes in land management, including reduced grazing and habitat degradation and agri-environment schemes.

Additionally, the reduction in grazing and the subsequent overgrowth of vegetation creates ideal conditions for other animals such as badgers, snakes and ticks (vectors for Lyme disease). The UK has experienced a rise in tick populations, with a reported 42% increase in the number of *Ixodes ricinus* ticks between 2010 and 2017. These ticks can transmit Lyme disease, leading to symptoms such as fatigue, headaches, and joint pain. The combined effects of declining biodiversity and increased health risks threaten to transform upland areas from spaces of enjoyment into environments fraught with ecological and health challenges. Without grazing practices, these landscapes may no longer offer the public goods they once did. You have a duty to protect these areas for the future generations.

From a cultural perspective, the decline of hefted flocks brings with it the erosion of **ear marking and notching traditions**, gathering days and shearing days, an intangible cultural heritage that connects farming families across generations. These are more than just practical tools; they are identifiers of lineage, territory, and history of the Welsh Hill Farms.

The economic impact must also be acknowledged. A reduction in livestock numbers undermines the **viability of local livestock auctions, agricultural merchants, and rural contractors**. Studies consistently show that **every £1 invested in agriculture returns up to £9 to the local economy**. These reductions come at a time when rural Wales needs sustained, not diminished, support to retain young people and viable livelihoods.

Moreover, we are deeply concerned about the impact this strategy may have on **young entrants to farming**. By reducing stock numbers so significantly, opportunities for the next generation to make a success of hill farming on National Trust tenancies are severely limited. The terrain of our uplands is uniquely suited to the hardy Welsh Mountain Sheep – no other breed can survive and contribute to the landscape in the same way.

Given these concerns, we respectfully request the **rationale and scientific or policy basis** for the scale of stock reductions currently underway by National Trust. We would very much welcome a dialogue with you and your teams to explore more balanced alternatives that would safeguard environmental objectives **without sacrificing** the genetic heritage, cultural wealth, the Welsh language and economic sustainability of the area.

We thank you for your attention to this matter and hope to engage constructively with you going forward.

Yours sincerely,

Welsh Mountain Sheep Society



CYMDEITHAS
DEFAID MYNYDD
CYMREIG



welshmountainsheep.cymru



Defaid Mynydd Cymreig / Welsh Mountain Sheep

Mr Giles Hunt

Cyfarwyddwr Tir ac Ystadau

Mr Trystan Edwards

Rheolwr Cyffredinol Eryri

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

12/6/2025

Annwyl Mr Hunt a Mr Edwards,

Pryderon ynghylch lleihau lefelau da byw.

Ysgrifennwn atoch fel Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig i fynegi ein pryder dwys ynghylch y lleihad presennol ac arfaethedig mewn niferoedd stocio defaid ar ffermydd yr ucheldir. Er bod y newidiadau hyn wedi eu hysgogi gan amcanion amgylcheddol tymor hir, maent yn peri **risg sylweddol** ac anadferadwy, nid yn unig i ddyfodol ein brîd, ond hefyd i ecoleg, diwylliant ac economi ehangach yr ardal.

Mae Defaid Mynydd Cymreig, yn enwedig y defaid cynefin, wedi cael eu magu dros genedlaethau i ffynnu yn rhai o amgylcheddau ucheldir mwyaf heriol yng Nghymru. Mae eu presenoldeb nid yn unig yn symbol o'n treftadaeth amaethyddol, ond yn hanfodol ar gyfer rheoli cynefinoedd yr ucheldir yn ecolegol. Mae'r diadelloedd cynefin yn cynrychioli perthynas ddofn rhwng da byw a thirwedd - perthynas na ellir ei hadfer unwaith y'i torrir. Defaid mynydd Cymreig yw sylfaen y diwydiant defaid yng Nghymru.

Mae lleihau niferoedd y diadelloedd i'r graddau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn bygwth bodolaeth y **defaid cynefin** - defaid sydd yn deall ac yn cynnal eu "cartref" ar y mynydd yn reddfodol. Nid hawdd yw ail-greu'r berthynas unigryw hon rhwng y defaid a'r dirwedd drwy ailgyflwyno da byw yn ddiweddarach. Fel y nodwyd gan y RSPB, mae pori addas gan fridiau brodorol o ddefaid yn hanfodol ar gyfer cynnal cynefinoedd agored yr ucheldir, sy'n allweddol ar gyfer adar sy'n dirywio megis y cwtiaid aur, bran coesgoch, y gylfinir, llinos y mynydd, a'r ehedydd. Mae pori traddodiadol a rheoledig yn chwarae rhan ganolog wrth atal gordyfiant o lystyfiant megis mieri a rhedyn, gan gynnal bioamrywiaeth.

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n ymestyn y tu hwnt i faterion ecolegol. Mae poblogaethau adar ucheldir y DU wedi gweld dirywiad sylweddol; er enghraifft, mae'r cwtiaid aur wedi gostwng 15% ers canol y 1990au, ac mae'r gylfinir wedi lleihau 11% rhwng 1994 a 2020. Cornchwiglen wedi lleihau 50% ers 1983. Mae'r dirywiad hwn yn gysylltiedig â newidiadau i

reolaeth tir, gan gynnwys lleihad mewn pori a diraddiad cynefinoedd, yn ogystal ag effeithiau rhai cynlluniau amaeth-amgylchedd.

Yn ychwanegol, mae'r lleihad mewn pori ac ymlediad dilynol o lystyfiant yn creu amodau delfrydol ar gyfer rhywogaethau megis moch daear, nadroedd a trogod (gall ledaenu clefyd *Lyme*). Mae'r DU wedi gweld cynnydd o 42% mewn nifer y trogod (*Ixodes ricinus*) rhwng 2010 a 2017. Gall y rhain drosglwyddo clefyd *Lyme*, gan arwain at symptomau megis blinder, pen tost, a phoen cymalau. Mae'r cyfuniad o ddirywiad bioamrywiaeth a risgiau iechyd yn bygwth trawsnewid ardaloedd ucheldirol o leoedd mwynhau i fannau llawn heriau ecolegol a risg i iechyd. Heb arferion pori, ni fydd y tirweddau hyn yn parhau i gynnig y **nwyddau cyhoeddus** y gwnaethant unwaith. Mae gennych ddyletswydd i amddiffyn yr ardaloedd hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

O safbwynt diwylliannol, mae dirywiad diadelloedd cynefin hefyd yn golygu **colli traddodiadau** megis nôd clust, diwrnod cneifio, diwrnod hel sy'n cysylltu teuluoedd ffermio ar draws y cenedlaethau. Mae'r rhain yn fwy na dim ond dulliau ymarferol; maent yn cynrychioli llinach, tiriogaeth a hanes ffermydd mynydd Cymru.

Rhaid hefyd cydnabod yr effaith economaidd. Mae lleihad mewn stoc dda byw yn tanseilio hyfywedd arwerthiannau lleol, masnachwyr amaethyddol, a chontractwyr gwledig. Mae astudiaethau'n dangos yn gyson fod **pob £1 a fuddsoddir mewn amaethyddiaeth yn dychwelyd hyd at £9 i'r economi leol**. Mae'r lleihad hwn yn digwydd ar adeg pan fo angen cefnogaeth gynaliadwy ar Gymru wledig, nid llai, i gadw pobl ifanc a bywoliaethau hyfyw yn yr ardal.

At hynny, rydym yn pryderu'n fawr am effaith bosibl y strategaeth hon ar **ffermwyr ifanc**. Trwy leihau stoc mor sylweddol, mae cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf fagu llwyddiant mewn ffermio ucheldir ar denantiaethau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cael eu lleihau'n ddifrifol. Mae tirwedd ein hucheldiroedd yn unigryw o ran ei addasrwydd i'r Defaid Mynydd Cymreig - nid oes un brid arall sy'n gallu goroesi ac ychwanegu at y dirwedd fel hwy.

O ystyried y pryderon hyn, gofynnwn yn barchus am yr eglurhad a'r sail wyddonol neu bolisi dros y raddfa o leihad mewn stoc sydd ar waith gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu'n fawr gyfle i ymgysylltu â chi a'ch timau i archwilio dewisiadau mwy cytbwys a fyddai'n diogelu amcanion amgylcheddol heb aberthu etifeddiaeth enetig, cyfoeth diwylliannol, ein hiaith Gymraeg a chynaliadwyedd economaidd yr ardal.

Diolchwn i chi am eich sylw i'r mater hwn ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu'n adeiladol gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig